

# Rhwydwaith Cyngbreiriaid Cydraddoldeb



**GWYBODAETH GYFFREDINOL**

# Llw Cynghreiriaid Cydraddoldeb

Fel Cynghreiriwr, rwy'n:

- Parchu oed, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, hil, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd fy nghydweithwyr; ac rwy'n tyngu i ddefnyddio fy nylanwad yn gadarnhaol i sicrhau bod gan y rhai hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol lais cyfrannol.
- Gwerthfawrogi bod gennym oll brofiadau bywyd gwahanol, a thyngaf i wrando'n astud pan fydd cydweithwyr yn sôn am eu profiadau gan ofyn cwestiynau i ennill gwell ddealltwriaeth.
- Cydnabod y grym sydd gennyf fel rhan o fy swydd i achosi newid, a thyngaf i ddangos cefnogaeth wrth ei ddefnyddio'n gadarnhaol er lles cydraddoldeb yn fy rôl o ddydd i ddydd.
- Ymwybodol o'r niwed gall sylwadau amhriodol, cellwair neu ymddygiad amhriodol achosi, a thyngaf i beidio â bod yn wylwr anweithredol.
- Credu ym mhwysigrwydd dysgu parhaus, a thyngaf i fod yn agored i gynyddu fy ngwybodaeth.
- Deall nad oes disgwyl i mi feddu ar yr holl atebion, felly dwi'n tyngu y byddaf yn glir ynghylch pa rai sydd gennyf a'r rhai nad oes gennyf.
- Deall pwysigrwydd cefnogaeth gan rywun arall, felly rwy'n tyngu i fod yn glust i wrando ac yn gydweithiwr cefnogol.

Llofnodwyd

# Cyflwyniad

Mae pawb yn gwybod sut beth yw cael cefnogaeth gan rywun arall - teimlwn fod rhywun yn gwranddo arnom, yn ein gwerthfawrogi, ein cynnwys a'n cefnogi i gyfranogi. Mae hefyd yn rhyddhad i gael rhywun i siarad ar ein rhan.

Dyna yw cydraddoldeb; pan fydd y rhai hynny sydd heb gael eu heffeithio'n bersonol yn camu ymlaen ac yn gweithredu fel Cynghreiriaid. Mae nifer sy'n gweithio o fewn ein Gwasanaeth yn Gynghreiriaid answyddogol: maent yn codi cwestiynau am grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn herio sylwadau amhriodol, yn cynnwys grwpiau eraill mewn gwasanaethau, yn cefnogi cyd-weithwyr drwy wrando, gwirfoddoli i fynychu digwyddiadau ac ati.

Caiff y rhinwedd proffesiynol hwn ei hyrwyddo, ei feithrin a'i gydnabod fel agwedd sy'n ychwanegu gwerth i'n Gwasanaeth; a nod y **Rhwydwaith Cynghreiriaid Cydraddoldeb** yw creu llwyfan i gynorthwyo gwneud hyn ymhellach.

Datblygodd nifer o gyflogwyr yr unfed ganrif ar hugain raglenni mewnol tebyg yn ddull gwerthfawr i adnabod y rhai sy'n deall bod cydraddoldeb yn golygu 'ni' yn hytrach na 'nhw', ac sy'n defnyddio eu rhagorffaint a/neu eu swydd i hyrwyddo cynhwysiant a newid. (Cyngor Rhondda Cynon Taf yw'r un diweddaraf yn lleol).



# Beth yw Rhwydwaith Cynghreiriaid Cydraddoldeb?

Mae **Rhwydwaith Cynghreiriaid Cydraddoldeb y Gwasanaeth** yn wahanol i'r ymgyrchoedd 'hyrwyddo' blaenorol gan ei fod yn seiliedig ar lw ac yn fwy hyblyg, ac felly'n haws ei addasu ar gyfer unigolion.

Nid oes lleiafswm dynodedig o amser o ran ymroddiad - fodd bynnag, disgwylir ymrwymiad rhagweithiol (mynychu digwyddiad, cyfranogi i sesiynau rhannu gwybodaeth, ac ati); yr hyn sy'n allweddol yw bod cynghreiriaid yn ymgorffori hanfod y llw wrth weithredu bod dydd.

Bob pythefnos bydd cynghreiriwyr yn derbyn e-bost grŵp yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a defnyddiol, ynghyd ag unrhyw gyfleoedd rhwydweithio sydd ar ddod.

Byddant hefyd yn gallu awgrymu themâu ar gyfer rhannu gwybodaeth a phob chwe mis, cynhelir digwyddiad anffurfiol a fynychir gan y Prif Swyddog Tân.



# Dod yn Gynghreiriwr



Mae bod yn gynghreiriwr yn golygu sylwi ar bethau nad ydynt o reidrwydd yn effeithio arnoch chi yn uniongyrchol, a gweithredu drwy herio, cwestiynu, gwrandao a/neu gynnwys.

Felly mae'r **Rhwydwaith Cynghreiriaid Cydraddoldeb** ar gyfer cydraddoldeb yn gyffredinol, ond bydd yn canolbwyntio'n benodol ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o ran: cred, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd (LHD), hil a menywod.

Mae nifer o gydweithwyr eisoes yn Gynghreiriaid anffurfiol, ond nid oes unrhyw fodd i sicrhau y cydnabyddir y gefnogaeth hon fel nodwedd gadarnhaol yn ffurfiol gan y sefydliad. Bwriada'r Rhwydwaith hwn roi crediniaeth sefydliadol i gywiro'r bwlch hwnnw.

Er mwyn i rywun fod yn Gynghreiriwr Cydraddoldeb, mae'n rhaid iddynt allu cefnogi **pob un** o'r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol hyn yn rhagweithiol a chytuno â'r llw.

Pan fydd cydweithiwr yn cadarnhau ei fod/ei bod am ymuno, byddant yn cael bathodyn fel symbol gweledol a dangos i bobl eraill eu bod yn Gynghreiriwr Cydraddoldeb.

Cynhwysir pob Cynghreiriwr mewn grŵp e-bost a byddant hefyd yn cael gwybodaeth am hyfforddiant, digwyddiadau, cyfleoedd i rwydweithio â sefydliadau eraill ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall.

Gall Cynghreiriwr, ar unrhyw adeg, ddatdanysgrifio o'r rhaglen; y cwbl sydd angen ei wneud yw hysbysu'r Swyddog Amrywiaeth a rhoi'r bathodyn yn ôl.

# Rhwydwaith Cynghreiriaid Cydraddoldeb

## CWESTIYNAU CYFFREDIN

### **Pam fod y Gwasanaeth yn cychwyn Rhwydwaith Cynghreiriaid Cydraddoldeb?**

Mae llawer o gynghreiriaid yn bodoli eisoes o fewn GTADC - fodd bynnag, does dim ffordd gydnabyddedig lle gallwn ddyrchafu a chydabod y sgil hwn yn broffesiynol. Yn ei hanfod mae Cydraddoldeb yn ymwneud â sut rydym yn trin ein gilydd a dyma'r rheswm i weithleoedd niferus ddatblygu rhwydweithiau/rhaglenni sy'n seiliedig ar Gynghreiriaid.

### **A oes cyfweiliadau neu geisiadau i ymuno â'r Rhwydwaith Cynghreiriaid?**

Ni chynhelir cyfweiliadau ffurfiol. Gallai unrhyw un fynychu cyhyd ag y gallent fod yn rhagweithiol wrth gefnogi'r holl grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a chytuno i gynnal yr addewid - yn syml, anfonwch e-bost at y Swyddog Amrywiaeth gan nodi eich dymuniad i ddod yn Gynghreiriwr.

### **Sut byddaf yn gwybod fy mod i'n Gynghreiriwr?**

Unwaith byddwch chi wedi cytuno a llofnodi Llŵ'r Cynghreiriaid, cewch fathodyn yn symbol gweledol.





## **Fydd hwn yn cymryd llawer o amser ac a fydd angen i fi fynychu cyfarfodydd ac ati?**

Bydd pob Cynghreiriwr yn derbyn uchafswm o un e-bost bob pythefnos - bydd hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am ymwybyddiaeth, digwyddiadau, cyfleoedd rhwydweithio proffesiynol perthnasol ac ati.

Nid oes amser penodol o ran ymrwymiad; mae bod yn Gynghreiriwr Cydraddoldeb yn hyblyg fel ei fod yn addas i bob unigolyn a dibynna ar weithredu hanfodion y llw yn eich gwaith bob dydd.

Fodd bynnag disgwylir y bydd pob Cyngrhair yn gweithredu'n rhyngweithiol i ryw raddau (mynychu digwyddiad partner allanol, rhannu gwybodaeth, hyrwyddo'r **Rhwydwaith Cynghreiriaid Cydraddoldeb** i gydweithwyr ac ati); fel gyda'r rhan fwyaf o bethau, mae'r budd yn gymesur â'r ymdrech.

## **Beth os newidiaf fy meddwl a dewis peidio â bod yn Gynghreiriwr o hyn ymlaen?**

Rydym yn deall y gallai ymrwymïadau eraill godi yn eich bywyd neu efallai nad yw'r rôl yn iawn i chi. Os felly, rhowch wybod i'r Swyddog Amrywiaeth ac anfonwch y bathodyn yn ôl gyda'r post.

## **Pwy sy'n hwyluso'r Grŵp Cynghreiriaid Cydraddoldeb?**

Mae'r Prif Swyddog Tân yn noddi ac yn ei gefnogi ac mae'r Swyddog Amrywiaeth yn hwyluso'r grŵp, felly dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau at Carey Wood.

